# Panel Cynghori - Adolygiad o'r Flwyddyn 2024-2025

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Cynghori ("y Panel") yn ystod 2024-2025. Fel gyda'r adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel ("Aelodau") yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu a gwblhawyd yn ystod mis Ebrill 2025.

## 2. Rôl y Panel Cynghori

2.1 Mae'r Panel Cynghori yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth arwain swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a'i llywodraethu'n dda. Mae profiad amrywiol yr Aelodau yn rhoi persbectif allanol gwrthrychol i'r Ombwdsmon (sy'n gorfforaeth undyn) a chyngor iddo ar ddatblygu polisi ac ymarfer, cyfeiriad strategol a'r broses o graffu ar berfformiad OGCC.

2.2 Cafodd Cylch Gorchwyl y Panel ei adolygu gan yr Ombwdsmon a'i gytuno gan y Panel ym mis Gorffennaf 2023, fel y gwelir yn Atodiad A.

## 3. Aelodaeth

3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ombwdsmon a lleiafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon ac a all gynnwys rhywun o swyddfa ombwdsmon arall). Yn ogystal, gellir cynnwys hyd at ddau aelod cyfetholedig yn yr aelodaeth.

3.2 Mae'r Ombwdsmon yn mynychu cyfarfodydd y Panel ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwaith Achos a Chyfreithiol yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel.

3.3 Bu aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Dr Jane Martin CBE (Cadeirydd)
- Mr Ian Williams hyd at fis Gorffennaf 2024
- Mr Mike Usher
- Ms Carys Evans (Is-gadeirydd hyd fis Gorffennaf 2024)
- Mrs Sue Phelps
- Ms Nia Roberts (Is-gadeirydd o fis Hydref 2024)
- Mrs Bernie Davies

3.4 Bu Jane Martin yn Gadeirydd drwy gydol y flwyddyn.

3.5 Ar ôl i gyfnod Ian Williams yn y swydd ddod i ben, penodwyd Felicity Mitchell i'r Panel Cynghori o fis Hydref 2024. Mae rhagor o wybodaeth am yr Aelodau ar gael yma.

## 4. Cyfarfodydd

4.1 Mae'r Aelodau wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rôl, gyda phob un ohonynt â chofnod rhagorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd presenoldeb llawn yn ystod y flwyddyn yn golygu pedwar cyfarfod, ac roedd presenoldeb yr Aelodau fel a ganlyn:

| Aelod o'r Panel | Sawl cyfarfod a fynychwyd | Cyfanswm Posib |
|---|---|---|
| Ian Williams | 2 | 2 |
| Jane Martin | 3 | 4 |
| Mike Usher | 4 | 4 |
| Carys Evans | 4 | 4 |
| Sue Phelps | 4 | 4 |
| Nia Roberts | 4 | 4 |
| Bernie Davies | 3 | 4 |
| Felicity Mitchell | 2 | 2 |

4.2 Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun, ac mae'r Aelodau wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ymhob cyfarfod, fel monitro cynnydd yn erbyn y targedau sydd yn y Cynlluniau Strategol a Gweithredol; a'r Adroddiad Monitro Perfformiad misol. Mae Rhaglenni Gwaith 2024-2025 a 2025-2026 wedi'u nodi yn Atodiadau B ac C yn y drefn honno.

4.3 Mae'r Panel wedi parhau i weithio'n effeithiol drwy gydol y cyfnod adolygu ac mae wedi darparu craffu a herio defnyddiol i OGCC. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol, ac mae'r asesiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn. Cynhaliwyd trafodaethau bwrdd crwn gyda deiliaid swyddi allweddol OGCC ac aelodau PASR a'r Panel Cynghori fel yr amlinellir isod.

4.4 Y pynciau allweddol a ystyriwyd gan y Panel yn 2024-2025 oedd:

- Chwaraeodd y Panel ran allweddol yn y gwaith o graffu ar ymateb y swyddfa i ddigwyddiad cyfryngau cymdeithasol y llynedd a oedd yn cynnwys cyn-aelod o staff erbyn hyn. Cynhaliwyd dwy sesiwn ychwanegol ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ystyried ymateb y swyddfa i'r digwyddiad a'r effaith a gafodd hyn ar les staff.

- Derbyniodd y Panel hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad Annibynnol Dr Melissa McCullough o brosesau, gweithdrefnau a phenderfyniad asesu Cod Ymddygiad y swyddfa, a gomisiynwyd o ganlyniad i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn craffu ar ddull y swyddfa o weithredu'r Argymhellion a'r Gwersi a Ddysgwyd yn adroddiad Dr McCullough. Fel rhan o'r gwaith hwn, bu'r Panel yn ystyried ac yn rhoi adborth ar Bolisïau diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol, Safonau Ymddygiad Staff a Datganiadau o Fuddiannau staff.

- Rhoddodd yr Aelodau wybod i'r Ombwdsmon hefyd am ymateb y swyddfa i Adolygiad Pwyllgor Cyllid y Senedd o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau

OGCC, a gynhaliwyd hefyd o ganlyniad i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Ystyriodd a rhoddodd y Panel adborth i Dîm Rheoli a Grŵp Arwain OGCC ar ganlyniadau Arolwg Staff 2023-24 a darn dilynol o waith a wnaed yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn i gasglu adborth a safbwyntiau manylach gan staff ar weithio yn OGCC. Yna, bu'n craffu ar gynigion y Tîm Rheoli 'Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol yn 'OGCC' a roddwyd ar waith yn ystod hanner olaf y flwyddyn.

- Ystyriodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol drafft OGCC a rhoi adborth arno.

- Rhoddodd y Panel gyngor i'r Ombwdsmon ar amcangyfrif cyllideb ddrafft OGCC ar gyfer 2025/26 cyn ei gyflwyno i'r Senedd (i'w gymeradwyo ym mis Hydref); gan ddarparu adborth a chyngor manwl ar ymgysylltiad yr Ombwdsmon â'r Pwyllgor Cyllid.

- Ystyriodd yr aelodau hefyd ddull arfaethedig y swyddfa o ymateb i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol Pwyllgor Cyllid y Senedd o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

## 5. Adolygiad Blynyddol

5.1 Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, mae aelodau'r Panel wedi asesu eu perfformiad unigol a pherfformiad y Panel cyfan ac wedi ystyried a oes ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth glir o awdurdodaeth a gweithrediadau OGCC i ddarparu cyngor a chefnogaeth effeithiol i'r Ombwdsmon ac i gynorthwyo'r Ombwdsmon gyda threfniadau llywodraethu, nodau strategol, amcanion a thargedau. Roedd yr adolygiad hefyd yn asesu a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael y sgiliau i ddarparu swyddogaeth graffu a herio briodol i'r Ombwdsmon ac i'w staff ac yn asesu'r berthynas waith rhwng Aelodau, swyddfa'r Ombwdsmon a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys nodi unrhyw anawsterau sy'n bodoli.

5.2 Cynhaliwyd trafodaethau blynyddol un i un rhwng yr Ombwdsmon a Chadeirydd y Panel, a rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol o'r Panel, a oedd yn gyfle defnyddiol i gael adborth ar berfformiad aelodau unigol ac effeithiolrwydd y Panel yn ei gyfanrwydd.

5.3 Canmolodd yr holl aelodau y swyddfa a'r Ombwdsmon yn bersonol ynghylch sut roedd y swyddfa wedi ymateb i'r digwyddiad cyfryngau cymdeithasol. Roeddent yn croesawu'r cyfle a gawsant i gefnogi a herio'r Ombwdsmon fel corfforaeth undyn drwy sefyllfa anodd a oedd yn ergyd i hyder ac enw da'r sefydliad, gan dalu clod i'r Ombwdsmon am y ffordd agored y bu'n cydweithio â'r Panel i weithio drwy atebion. Roeddent yn teimlo bod y gwaith ar y cyd ag aelodau PASR wedi bod yn adeiladol iawn ac yn hynod ddefnyddiol o ran arwain y sefydliad drwy'r cyfnod anodd hwn. Nod cyffredin yr aelodau oedd herio'n adeiladol, tawelu meddyliau cynrychiolwyr etholedig a'r cyhoedd, a chefnogi staff drwy gydol y cyfnod anodd hwn. Roedd yr holl aelodau o'r farn bod y sefydliad wedi dod drwy'r bennod hon gyda mwy o sicrwydd a chadernid.

5.4 Croesawodd yr aelodau hefyd y berthynas agored barhaus y gellir ymddiried ynddi sydd ganddynt â staff sy'n ymateb yn agored ac yn adeiladol i bob cwestiwn a ofynnir iddynt.

## 6. Ystyriaethau i'r Dyfodol

6.1 Mae'r Panel yn edrych ymlaen at ddarparu cymorth parhaus i'r swyddfa yn ystod y cyfnod o newid sydd ar y gweill o ganlyniad i newidiadau yn yr Uwch Dîm Arwain, ac i Is-gadeirydd presennol y Panel wrth iddi ymgymryd â rôl y Cadeirydd ym mis Hydref 2025.

6.2 Byddai'r cyfle i weithio ar y cyd ag aelodau'r PASR ar faterion allweddol, fel parodrwydd i dderbyn risg a rheoli a dadansoddi data yn cael ei groesawu, er mwyn i aelodau allu dod â'u safbwyntiau ehangach i'r trafodaethau hyn.

## 7. Asesiad Cyffredinol gan Gadeirydd y Panel Cynghori

7.1 Chwaraeodd yr Aelodau ran hollbwysig yn y gwaith o gefnogi'r Ombwdsmon a'r swyddfa y llynedd wrth ymateb i'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ac ailadeiladu ei enw da am fod yn annibynnol ac yn ddiduedd wrth ddelio â chwynion Cod Ymddygiad. Roedd perthynas waith agored ac y gellir ymddiried ynddi rhwng yr aelodau â'r â'r Ombwdsmon a'i staff yn sicrhau bod y Panel yn gallu cyflawni ei rôl o ddarparu her adeiladol i'r sefydliad yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn a chefnogi'r Ombwdsmon fel Corfforaeth Unigol.

7.2 Mae adroddiad Adolygiad Annibynnol Dr McCullough a chanfyddiadau Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Senedd yn rhoi sicrwydd, i'r cyhoedd ac i gynrychiolwyr etholedig, y gallant ymddiried yng ngwaith OGCC a bod ganddynt ffydd ynddo.

7.3 Mae aelodau'r Panel yn edrych ymlaen at ddarparu cymorth a chraffu parhaus wrth i'r swyddfa symud yn awr ac mae'n gallu canolbwyntio'n llwyr ar y gwasanaeth pwysig y mae'n ei ddarparu i ddinasyddion yng Nghymru.

| |
|---|
| Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel Cynghori<br>Atodiad B - Rhaglen Waith 2024-2025<br>Atodiad C - Rhaglen Waith 2025-2026 |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Cylch Gorchwyl y Panel Cynghori

**Statws y Panel Cynghori**
Mae'r Panel Cynghori yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth iddo arwain swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a darparu cyfeiriad strategol iddi. Hefyd, mae'r Panel Cynghori yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion.

Mae'r Panel Cynghori yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar y canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad strategol a chynllunio.

Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Cynghori, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.

**Aelodaeth**
Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon ac a all gynnwys rhywun o swyddfa ombwdsmon arall)
- Hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel. Bydd aelodau eraill y Tîm Rheoli, fel y'u pennir gan yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae dewis gan yr Ombwdsmon i ymestyn y cyfnod hwn am dair blynedd arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd Is-gadeirydd hefyd yn cael ei benodi. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol o'r Panel i fod yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd ar sail argymhelliad y Panel Cynghori. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Panel Cynghori, caiff penderfyniad yr Ombwdsmon ei nodi yng nghofnodion cyfarfod y Panel Cynghori.

Er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, rhaid i o leiaf un aelod annibynnol o'r Panel Cynghori beidio ag eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd.

**Rôl a chyfrifoldebau'r Panel**
Cynorthwyo'r Ombwdsmon i bennu'r canlynol:

- cyfeiriad strategol OGCC, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau;
- polisïau busnes allweddol;
- polisïau a strategaethau cyflogaeth pwysig.

Craffu a rhoi sicrwydd ar y canlynol:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Gweithredol Blynyddol;
- dyraniad cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno amcangyfrifon y gyllideb i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru

Monitro ac adolygu:

- perfformiad a chyflawniad gweithredol;
- effeithiolrwydd polisïau a strategaethau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid.

**Hawliau**
Caiff yr Ombwdsmon a'r Panel Cynghori wneud y canlynol:

- cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a helpu'r Panel i fod yn cynrychioli'r cymunedau y mae'r Ombwdsmon yn eu gwasanaethu.
- gofyn am gyngor ad-hoc arbenigol, ar yr amod bod hynny o fewn y gyllideb.

**Cyfarfodydd**
Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn.  Y cworwm fydd o leiaf dri aelod annibynnol.

Bydd yr Ombwdsmon hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod (neu, mewn amgylchiadau eithriadol, dirprwy a enwebir gan yr Ombwdsmon).

Os na fydd Cadeirydd y Panel Cynghori yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd yn cymryd y gadair neu os nad yw hefyd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cymryd y gadair.

Yn dilyn cymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel, cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon.

**Datgan Buddiannau Aelodau** Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol yn unol â Pholisi OGCC ar Ddatgan Buddiannau yng nghyswllt aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Is-bwyllgorau**
Mae'n agored i'r Panel Cynghori ffurfio Pwyllgor Taliadau, neu is-bwyllgorau eraill, ar sail ad hoc (hy pan fydd angen).

**Gofynion o ran Gwybodaeth**
Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Panel Cynghori yn cael adroddiad cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Strategol/Gweithredol.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Panel hefyd:

- rhaglen waith flynyddol
- adolygiadau o gynnydd yn erbyn y Strategaeth Cyfathrebu ac Allgymorth
- cynigion ar gyfer unrhyw amcanion newydd 'yn ystod y flwyddyn' nas rhagwelwyd yn wreiddiol pan ddatblygwyd y Cynlluniau Strategol/Gweithredol
- amcangyfrifon blynyddol drafft a gyflwynir i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru
- cynigion drafft ar gyfer polisïau busnes/cyflogaeth allweddol newydd neu ddiwygiedig
- y diweddaraf am y berthynas waith â Senedd Cymru
- cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sefydliadol
- Adroddiad Blynyddol OGCC
- adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd y Panel Cynghori ei hun.

**Adrodd**

- Bydd pob cyfarfod o'r Panel yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Panel yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Ombwdsmon ar y gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, wedi'i amseru i gefnogi'r dasg o gwblhau Adroddiad Blynyddol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ombwdsmon.

Noder: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn, gwaith a rôl y Panel Cynghori yw rhoi cyngor yn unig. Nid oes gan y Panel nac unrhyw aelodau unigol unrhyw rôl na chylch gwaith yng nghyswllt materion gweithredol neu benderfyniadau gwaith achos a wneir gan OGCC.

******************************************

Cymeradwywyd gan y Tîm Rheoli ar 10 Gorffennaf 2024
Cadarnhawyd gan y Panel Cynghori ar 24 Gorffennaf 2024
Adolygiad Nesaf: Gorffennaf 2025

**ATODIAD B**

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Rhaglen Waith y Panel Cynghori 2024-2025

## Ebrill 2024

Camau Gweithredu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2024-2025
Adroddiad Monitro Perfformiad
Panel Cynghori - Adolygiad o Flwyddyn 2023-2024
Eitem Trafod ar Nod Strategol
Diweddariad Cyfathrebu ac Allgymorth
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau’r Panel Cynghori

## Gorffennaf 2024

Adroddiad Blynyddol 2023-2024
Cynnydd o ran Cynllunio Strategol gan gynnwys Cynlluniau Digidol a TG, Allgymorth, Cydraddoldeb a Phobl
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Materion Cychwynnol i’w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2025-2026
Diweddariad ar Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun
Cofrestr Buddiannau
Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Cynghori
Eitem Trafod ar Nod Strategol

## Hydref 2024

Cyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Diweddariad ar Bwerau Rhagweithiol
Adroddiad Monitro Perfformiad
Eitem Trafod ar Nod Strategol

## Chwefror 2025

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru (llafar)
Ymateb drafft i Bwyllgor Cyllid y Senedd
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Diweddariad Cyfathrebu ac Allgymorth
Adolygu Rhaglen Waith y Panel Cynghori 2025-2026
Eitem Trafod ar Nod Strategol

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Rhaglen Waith y Panel Cynghori 2025-2026

## Ebrill 2025

Camau Gweithredu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025-2026
Adroddiad Monitro Perfformiad
Panel Cynghori - Adolygiad o Flwyddyn 2024-2025
Eitem Trafod ar Nod Strategol
Diweddariad Cyfathrebu ac Allgymorth
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Cynghori

## Gorffennaf 2025

Adroddiad Blynyddol 2024-2025
Cynnydd o ran Cynllunio Strategol gan gynnwys Cynlluniau Digidol a TG, Allgymorth, Cydraddoldeb a Phobl
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2026-2027
Diweddariad ar Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun
Cofrestr Buddiannau
Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Cynghori
Eitem Trafod ar Nod Strategol

## Hydref 2025

Cyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Diweddariad ar Bwerau Rhagweithiol
Adroddiad Monitro Perfformiad
Eitem Trafod ar Nod Strategol

## Ionawr 2026

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru (llafar)
Ymateb drafft i Bwyllgor Cyllid y Senedd
Diweddariad ar y Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Diweddariad Cyfathrebu ac Allgymorth
Adolygu Rhaglen Waith y Panel Cynghori 2026-2027
Eitem Trafod ar Nod Strategol